



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 914 (Cy. 141) (C. 50)

2023 No. 914 (W. 141) (C. 50)

**ADEILADU AC ADEILADAU,
CYMRU**

**BUILDING AND BUILDINGS,
WALES**

Rheoliadau Deddf Diogelwch
Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 3,
Darpariaethau Trosiannol a
Darpariaethau Arbed) (Cymru)
2023

The Building Safety Act 2022
(Commencement No. 3,
Transitional and Saving Provisions)
(Wales) Regulations 2023

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau Cychwyn hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) ("Deddf 2022").

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym ar 5 Medi 2023 y darpariaethau a bennir yn y rheoliad hwnnw ac yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn. Daw rhai o'r darpariaethau hynny i rym yn llawn, a daw eraill i rym at ddibenion cyfyngedig gwneud rheoliadau neu lunio a chyhoeddi dogfennau.

Mae rheoliad 3 yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n gwneud diwygiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ar 1 Hydref 2023.

Mae rheoliad 4 yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r gofrestr o arolygwyr adeiladu a chymeradwywyr rheolaeth adeiladu ar 1 Ionawr 2024 (er nad yw'r darpariaethau sy'n galluogi arolygwyr cofrestredig adeiladu a chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu i ymgymryd â gweithgareddau yn dod i rym ar yr adeg hon).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Commencement Regulations are made by the Welsh Ministers under the Building Safety Act 2022 (c. 30) ("the 2022 Act").

Regulation 2 brings into force on 5 September 2023 the provisions specified in that regulation and in the Schedule to these Regulations. Some of those provisions come into force in full, others come into force for the limited purposes of making regulations or preparing and publishing documents.

Regulation 3 brings into force provisions that make amendments to the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 on 1 October 2023.

Regulation 4 brings into force provisions relating to the register of building inspectors and building control approvers on 1 January 2024 (although the provisions that enable registered building inspectors and registered building control approvers to undertake activities do not come into force at this time).

Mae rheoliadau 5 a 6 yn gwneud darpariaethau trosiannol o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i'r gofynion ymgynghori yn adran 14 (ymgynghori ar reoliadau adeiladu) o Ddeddf Adeiladu 1984 (p. 55) (“Deddf 1984”) a diwygiadau a wnaed i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â dod i rym adran 58Y o Ddeddf Adeiladu 1984.

Mae rheoliadau 8, 9 a 10 yn gwneud darpariaethau arbed sy'n deillio o hepgor adran 106(3) o Ddeddf 1984, a pharagraffau 5 a 9 o Atodlen 1 iddi, ac amnewid paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984.

NODYN AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2022 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy reoliadau cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

<i>Y Ddarpariaeth</i>	<i>Y Dyddiad Cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>
Adran 2(2) ac Atodlen 1	28 Mehefin 2022	2022/561 (C. 28)
Adran 31 (yn rhannol)	9 Rhagfyr 2022	2022/1287 (Cy. 261) (C. 104)
Adran 33 (yn rhannol)	6 Ebrill 2023	2023/362 (C. 15)
Adran 48	28 Gorffennaf 2022	2022/774 (Cy. 169) (C. 47)
Adran 55	9 Rhagfyr 2022	2022/1287 (Cy. 261) (C. 104)
Adrannau 130 a 131	28 Mehefin 2022	2022/561 (C. 28)
Adran 132 (at ddibenion gwneud rheoliadau)	28 Mai 2022	2022/561 (C. 28)
Adran 132 (at yr holl ddibenion sy'n weddill)	28 Mehefin 2022	2022/561 (C. 28)
Atodlen 5, paragraffau 1, 77 (yn rhannol), 78 ac 81 (yn rhannol)	9 Rhagfyr 2022	2022/1287 (Cy. 261) (C. 104)

Regulations 5 and 6 make transitional provisions as a consequence of amendments made to the consultation requirements in section 14 (consultation on building regulations) of the Building Act 1984 (c. 55) (“the 1984 Act”) and amendments made to the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005. Regulation 7 makes transitional provisions in relation to the coming into force of section 58Y of the Building Act 1984.

Regulations 8, 9 and 10 make savings provisions arising from the omission of section 106(3) of, and paragraphs 5 and 9 of Schedule 1 to, the 1984 Act, and the substitution of paragraph 10 of Schedule 1 to the 1984 Act.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT REGULATIONS

(This note is not part of the Regulations)

The following provisions of the 2022 Act have been brought into force in relation to Wales by commencement regulations made before the date of these Regulations.

<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No.</i>
Section 2(2) and Schedule 1	28 June 2022	2022/561 (C. 28)
Section 31 (partially)	9 December 2022	2022/1287 (W. 261) (C. 104)
Section 33 (partially)	6 April 2023	2023/362 (C. 15)
Section 48	28 July 2022	2022/774 (W. 169) (C. 47)
Section 55	9 December 2022	2022/1287 (W. 261) (C. 104)
Sections 130 and 131	28 June 2022	2022/561 (C. 28)
Section 132 (for the purposes of making regulations)	28 May 2022	2022/561 (C. 28)
Section 132 (for all remaining purposes)	28 June 2022	2022/561 (C. 28)
Schedule 5, paragraphs 1, 77 (partially), 78 and 81 (partially)	9 December 2022	2022/1287 (W. 261) (C. 104)

2023 Rhif 914 (Cy. 141) (C. 50)

2023 No. 914 (W. 141) (C. 50)

**ADEILADU AC ADEILADAU,
CYMRU**

**BUILDING AND BUILDINGS,
WALES**

Rheoliadau Deddf Diogelwch
Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 3,
Darpariaethau Trosiannol a
Darpariaethau Arbed) (Cymru)
2023

The Building Safety Act 2022
(Commencement No. 3,
Transitional and Saving Provisions)
(Wales) Regulations 2023

Gwnaed

18 Awst 2023

Made

18 August 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 170(4)(a)(ii), (4)(a)(iii), (4)(b)(ii), (4)(b)(iii), (4)(b)(iv), (4)(b)(vi), (4)(b)(viii), (4)(b)(ix), (4)(b)(x), (4)(b)(xi), (7) ac (8) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022(1).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 170(4)(a)(ii), (4)(a)(iii), (4)(b)(ii), (4)(b)(iii), (4)(b)(iv), (4)(b)(vi), (4)(b)(viii), (4)(b)(ix), (4)(b)(x), (4)(b)(xi), (7) and (8) of the Building Safety Act 2022(1).

Enwi a Dehongli

Title and Interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2023.

1.—(1) The title of these Regulations is the Building Safety Act 2022 (Commencement No. 3, Transitional and Saving Provisions) (Wales) Regulations 2023.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Deddf 1984” (“*the 1984 Act*”) yw Deddf Adeiladu 1984(2);

ystyr “Deddf 2022” (“*the 2022 Act*”) yw Deddf Diogelwch Adeiladau 2022.

(2) In these Regulations—

“the 1984 Act” (“*Deddf 1984*”) means the Building Act 1984(2);

“the 2022 Act” (“*Deddf 2022*”) means the Building Safety Act 2022.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae i ymadroddion Cymraeg yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Neddf 1984 yr un ystyr â'r ymadroddion hynny yn y Ddeddf honno.

(3) Subject to paragraph (2), expressions used in these Regulations and in the 1984 Act have the same meaning as in that Act.

(1) 2022 p. 30.
(2) 1984 p. 55.

(1) 2022 c. 30.
(2) 1984 c. 55.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Medi 2023

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2022 i rym ar 5 Medi 2023—

- (a) adran 32(1) a (4) (awdurdodau rheolaeth adeiladu) o ran Cymru, ac adran 32(3) at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 91ZD o Ddeddf 1984;
- (b) o ran Cymru—
 - (i) adran 33 (rheoliadau adeiladu), at yr holl ddibenion sy'n weddill;
 - (ii) adrannau 34 a 35 (deiliaid dyletswyddau a dyletswyddau cyffredinol, a chymhwysedd y diwydiant);
 - (iii) adran 36 (cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu yn darfod etc), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 32 a 53A o Ddeddf 1984, a pharagraff 4A(6) o Atodlen 4 iddi;
 - (iv) adran 37 (penderfynu ar geisiadau penodol gan awdurdod cenedlaethol priodol), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 30A o Ddeddf 1984;
 - (v) adran 38 (cydymffurfedd a hysbysiadau stop), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 35B, 35C a 35D o Ddeddf 1984;
 - (vi) adran 39 (torri rheoliadau adeiladu), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 35 o Ddeddf 1984;
 - (vii) adran 41 (dirymu etc ddarpariaethau penodol a wneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972);
 - (viii) adran 42 (rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu)—
 - (aa) at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 58C, 58O, 58U, 58V, 58Z4 a 58Z5 o Ddeddf 1984;
 - (bb) at ddiben llunio a chyhoeddi dogfennau o dan adrannau 58F, 58H, 58R, 58T, 58Z a 58Z3 o Ddeddf 1984;
 - (cc) i'r graddau y mae'n ymwneud â mewnosod adran 58Y yn Neddf 1984;
 - (ix) adran 44 (swyddogaethau nad ydynt yn arferadwy ond drwy arolygwyr cofrestredig adeiladu, neu gyda eu cyngor), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 46A a 54B o Ddeddf 1984;

Provisions coming into force on 5 September 2023

2. The following provisions of the 2022 Act come into force on 5 September 2023—

- (a) section 32(1) and (4) (building control authorities) in relation to Wales, and section 32(3) for the purpose of making regulations under section 91ZD of the 1984 Act;
- (b) in relation to Wales—
 - (i) section 33 (building regulations), for all remaining purposes;
 - (ii) sections 34 and 35 (duty holders and general duties, and industry competence);
 - (iii) section 36 (lapse of building control approval etc), for the purpose of making regulations under sections 32 and 53A of, and paragraph 4A(6) of Schedule 4 to, the 1984 Act;
 - (iv) section 37 (determination of certain applications by appropriate national authority), for the purpose of making regulations under section 30A of the 1984 Act;
 - (v) section 38 (compliance and stop notices), for the purpose of making regulations under sections 35B, 35C and 35D of the 1984 Act;
 - (vi) section 39 (breach of building regulations), for the purpose of making regulations under section 35 of the 1984 Act;
 - (vii) section 41 (revocation etc of certain provision made under section 2(2) of the European Communities Act 1972);
 - (viii) section 42 (regulation of building control profession)—
 - (aa) for the purpose of making regulations under sections 58C, 58O, 58U, 58V, 58Z4 and 58Z5 of the 1984 Act;
 - (bb) for the purpose of preparing and publishing documents under sections 58F, 58H, 58R, 58T, 58Z and 58Z3 of the 1984 Act;
 - (cc) so far as it relates to inserting section 58Y into the 1984 Act;
 - (ix) section 44 (functions exercisable only through, or with advice of, registered building inspectors), for the purpose of making regulations under sections 46A and 54B of the 1984 Act;

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> (x) adran 46 (gwaith adeilad risg uwch: cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 52A a 55 o Ddeddf 1984; (xi) adran 47 (gwaith adeilad risg uwch: cyrff cyhoeddus); (xii) adrannau 49 i 52 (tystysgrifau planiau, canslo hysbysiad cychwynnol, hysbysiadau cychwynnol newydd a chasglu gwybodaeth), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 50, 52, 53, 53B, 53C a 53D o Ddeddf 1984, a pharagraff 2 o Atodlen 4 iddi; (xiii) paragraffau Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad â Rhan 3 o Ddeddf 2022) a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn; (xiv) adran 56 (apelau) (yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn adran 170(4)(b)(ix) o Ddeddf 2022); (xv) paragraff 30 o Atodlen 6 (apelau a phenderfyniadau eraill), at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 101A o Ddeddf 1984; (xvi) adran 57 (ffioedd a thaliadau). | <ul style="list-style-type: none"> (x) section 46 (higher-risk building work: registered building control approvers), for the purpose of making regulations under sections 52A and 55 of the 1984 Act; (xi) section 47 (higher-risk building work: public bodies); (xii) sections 49 to 52 (plans certificates, cancellation of initial notice, new initial notices and information gathering), for the purpose of making regulations under sections 50, 52, 53, 53B, 53C and 53D of, and paragraph 2 of Schedule 4 to, the 1984 Act; (xiii) the paragraphs of Schedule 5 (minor and consequential amendments in connection with Part 3 of the 2022 Act) specified in the Schedule to these Regulations; (xiv) section 56 (appeals) (subject to the exceptions in section 170(4)(b)(ix) of the 2022 Act); (xv) paragraph 30 of Schedule 6 (appeals and other determinations), for the purpose of making regulations under section 101A of the 1984 Act; (xvi) section 57 (fees and charges). |
|--|---|

Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2023

3. O ran Cymru, daw adran 156 (diwygio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005) ac eithrio is-adran (4) (ac is-adran (8) i'r graddau y mae'n ymwneud ag erthygl 22B o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005)(1) i rym ar 1 Hydref 2023.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2024

4. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2022 i rym ar 1 Ionawr 2024—

- (a) o ran Cymru, adran 42 (rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu), i'r graddau y mae'n ymwneud â mewnosod Rhan 2A yn Neddf 1984 ac eithrio adrannau 58H i 58L, 58T i 58W, 58Y, 58Z1 i 58Z6 a 58Z8(2);
- (b) adran 42, i'r graddau y mae'n ymwneud â mewnosod adran 58Z10 yn Neddf 1984.

Provision coming into force on 1 October 2023

3. In relation to Wales, section 156 (amendment of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005) except subsection (4) (and subsection (8) so far as relating to article 22B of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005)(1) comes into force on 1 October 2023.

Provisions coming into force on 1 January 2024

4. The following provisions of the 2022 Act come into force on 1 January 2024—

- (a) in relation to Wales, section 42 (regulation of building control profession), so far as it relates to inserting Part 2A into the 1984 Act excluding sections 58H to 58L, 58T to 58W, 58Y, 58Z1 to 58Z6 and 58Z8(2);
- (b) section 42, so far as it relates to inserting section 58Z10 into the 1984 Act.

(1) O.S. 2005/1541.

(2) Nid yw pŵer Gweinidogion Cymru i bennu diwrnod ar gyfer dod i rym adran 42 o Ddeddf 2022 yn cynnwys adran 42 i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran newydd 58Z7. I'r graddau y mae adran 42 yn ymwneud ag adran newydd 58Z10 (ac adran newydd 58Z2) nid yw pŵer Gweinidogion Cymru i bennu diwrnod ar gyfer dod i rym yn gyfyngedig i fod o ran Cymru yn unig.

(1) S.I. 2005/1541.

(2) The Welsh Ministers' power to appoint a day for the coming into force of section 42 of the 2022 Act does not include section 42 so far as it relates to new section 58Z7. So far as section 42 relates to new section 58Z10 (and new section 58Z2) the Welsh Ministers' power to appoint a day for coming into force is not limited to being only in relation to Wales.

Darpariaethau trosiannol

5. Mae ymgynghoriadau a ddechreuodd cyn 5 Medi 2023 o dan naill ai adran 14(7) neu (8) o Ddeddf 1984 yn bodloni'r gofynion ymgynghori yn yr is-adrannau hynny, fel y'u diwygir gan baragraff 17 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.

6. Nid yw'r diwygiadau i erthygl 32 o'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) a wneir gan adran 156(10)(b) ac (c) o Ddeddf 2022 yn gymwys i drosedd a gyflawnir cyn 1 Hydref 2023.

7. Rhwng 5 Medi 2023 a 31 Rhagfyr 2023 mae cyfeiriadau at "regulatory authority" yn adran 58Y o Ddeddf 1984 i'w darllen fel pe bai adran 58A o Ddeddf 1984 mewn grym.

Arbedion

8. Er bod adran 106(3) o Ddeddf 1984 wedi ei hepgor gan baragraff 67 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022, mae adran 106(3) yn parhau i fod yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo cais o dan y ddarpariaeth honno wedi ei wneud i lys ynadon cyn i'r diddymiad ddod i rym.

9. Er bod paragraffau 5 a 9 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984 wedi eu hepgor (gan baragraff 83(3) a (7) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022), mae unrhyw ddarpariaethau yn y rheoliadau a ganlyn (sydd mewn grym yn union cyn 5 Medi 2023) ac a wnaed o dan baragraff 5 neu 9 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984 yn parhau i fod mewn grym ac maent yn gymwys fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 105B o Ddeddf 1984 a chaniateir iddynt gael eu hamrywio neu eu dirymu yn unol â hynny—

- (a) Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010(1),
- (b) Rheoliadau Adeiladu 2010(2), ac
- (c) Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(3).

10. Er bod paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984 wedi ei amnewid (gan baragraff 83(8) o Atodlen 5 i Ddeddf 2022), mae unrhyw ddarpariaethau yn y rheoliadau a ganlyn (sydd mewn grym yn union cyn 5 Medi 2023) ac a wnaed o dan baragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984 yn parhau i fod mewn grym ac maent yn gymwys fel pe baent wedi eu gwneud o dan baragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984 fel y'i hamnewidiwyd a chaniateir iddynt gael eu hamrywio neu eu dirymu yn unol â hynny—

- (a) Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010,

Transitional provisions

5. Consultations started before 5 September 2023 under either section 14(7) or (8) of the 1984 Act satisfy the consultation requirements in those subsections, as amended by paragraph 17 of Schedule 5 to the 2022 Act.

6. The amendments to article 32 of the Regulatory Reform (Fire Safety) Order made by section 156(10)(b) and (c) of the 2022 Act do not apply to an offence committed before 1 October 2023.

7. From 5 September 2023 to 31 December 2023 references to "regulatory authority" in section 58Y of the 1984 Act are to be read as if section 58A of the 1984 Act is in force.

Savings

8. Despite the omission of section 106(3) of the 1984 Act by paragraph 67 of Schedule 5 to the 2022 Act, section 106(3) continues to apply in any case where an application under that provision has been made to a magistrates' court before the coming into force of the repeal.

9. Despite the omission of paragraphs 5 and 9 of Schedule 1 to the 1984 Act (by paragraph 83(3) and (7) of Schedule 5 to the 2022 Act), any provisions of the following regulations (in force immediately before 5 September 2023) and made under paragraph 5 or 9 of Schedule 1 to the 1984 Act continue in force and apply as if made under section 105B of the 1984 Act and may be varied or revoked accordingly—

- (a) the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010(1),
- (b) the Building Regulations 2010(2), and
- (c) the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010(3).

10. Despite the substitution of paragraph 10 of Schedule 1 to the 1984 Act (by paragraph 83(8) of Schedule 5 to the 2022 Act), any provisions of the following regulations (in force immediately before 5 September 2023) and made under paragraph 10 of Schedule 1 to the 1984 Act continue in force and apply as if made under paragraph 10 of Schedule 1 to the 1984 Act as substituted and may be varied or revoked accordingly—

- (a) the Building (Local Authority Charges) Regulations 2010,

(1) O.S. 2010/404.
(2) O.S. 2010/2214.
(3) O.S. 2010/2215.

(1) S.I. 2010/404.
(2) S.I. 2010/2214.
(3) S.I. 2010/2215.

- (b) Rheoliadau Adeiladu 2010, ac
- (c) Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.

- (b) the Building Regulations 2010, and
- (c) the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
18 Awst 2023

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
18 August 2023

YR ATODLEN

Rheoliad 2(b)(xiii)

Daw'r darpariaethau a ganlyn yn
Atodlen 5 i Ddeddf 2022 i rym yn unol â
rheoliad 2(b)(xiii)—

1. Paragraff 2.
2. Paragraff 3.
3. Paragraff 4(1) a 4(2).
4. Paragraff 5(1) a 5(2).
5. Paragraff 6.
6. Paragraff 9.
7. Paragraff 10.
8. Paragraff 11(1), 11(2) ac 11(3).
9. Paragraff 12(1) a 12(2).
10. Paragraff 13(1), 13(2), 13(5) a 13(6).
11. Paragraff 14(1), 14(2), 14(3)(b) a 14(4)(b).
12. Paragraff 15(1) i 15(5) a 15(9).
13. Paragraff 16.
14. Paragraff 17.
15. Paragraff 22(1) a 22(8).
16. Paragraff 40(1) a 40(3).
17. Paragraff 42(1) a 42(3).
18. Paragraff 46(1) a 46(2).
19. Paragraff 50.

SCHEDULE

Regulation 2(b)(xiii)

The following provisions of Schedule 5
to the 2022 Act come into force in
accordance with regulation 2(b)(xiii)—

1. Paragraph 2.
2. Paragraph 3.
3. Paragraph 4(1) and 4(2).
4. Paragraph 5(1) and 5(2).
5. Paragraph 6.
6. Paragraph 9.
7. Paragraph 10.
8. Paragraph 11(1), 11(2) and 11(3).
9. Paragraph 12(1) and 12(2).
10. Paragraph 13(1), 13(2), 13(5) and 13(6).
11. Paragraph 14(1), 14(2), 14(3)(b) and 14(4)(b).
12. Paragraph 15(1) to 15(5) and 15(9).
13. Paragraph 16.
14. Paragraph 17.
15. Paragraph 22(1) and 22(8).
16. Paragraph 40(1) and 40(3).
17. Paragraph 42(1) and 42(3).
18. Paragraph 46(1) and 46(2).
19. Paragraph 50.

20. Paragraff 51.

21. Paragraff 53.

22. Paragraff 55(1), 55(4)(a) a 55(6).

23. Paragraff 57(1) a 57(3).

24. Paragraff 67.

25. Paragraff 71.

26. Paragraff 74(1) a 74(2).

27. Paragraff 75.

28. Paragraff 76(1) a 76(3).

29. Paragraff 80, at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 125A o Ddeddf Adeiladu 1984.

30. Y diffiniadau o “appropriate court or tribunal”, “building control approval”, “building control authority” a “higher-risk building work” ym mharagraff 81(2).

31. Paragraff 82.

32. Paragraff 83(1), 83(2), 83(3) (i’r graddau y mae’n ymwneud â pharagraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 1984), 83(7), 83(8) a 83(9).

33. Paragraff 84(1) a 84(3).

©Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

20. Paragraph 51.

21. Paragraph 53.

22. Paragraph 55(1), 55(4)(a) and 55(6).

23. Paragraph 57(1) and 57(3).

24. Paragraph 67.

25. Paragraph 71.

26. Paragraph 74(1) and 74(2).

27. Paragraph 75.

28. Paragraph 76(1) and 76(3).

29. Paragraph 80, for the purposes of making regulations under section 125A of the Building Act 1984.

30. The definitions of “appropriate court or tribunal”, “building control approval”, “building control authority” and “higher-risk building work” in paragraph 81(2).

31. Paragraph 82.

32. Paragraph 83(1), 83(2), 83(3) (so far as it relates to paragraph 5 of Schedule 1 to the 1984 Act), 83(7), 83(8) and 83(9).

33. Paragraph 84(1) and 84(3).

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

